O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 194 (Cy.38)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A55 (Cyffordd 9 (Treborth), Bangor, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2011

Gwnaed	*31 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*7 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun - Bangor (yr A487) a chefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A55 (Cyffordd 9 (Treborth), Bangor, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd"*("the lengths of the trunk roads")* yw:

i. y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 50 o fetrau i'r de-orllewin o Gylchfan Ty'n Lôn (Treborth) i bwynt 100 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Ffordd Bronwydd, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y cyfryw gylchfan.

ii. y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 9 (Treborth) sy'n ymestyn am 50 o fetrau i gyfeiriad dwyreiniol o'i chyffordd â Chylchfan Ty'n Lôn (Treborth);